Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Elan Valley Trust

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| Teitl Swydd: | Swyddog Adfer Mawndiroedd Cynorthwyol |
| Oriau wythnosol: | Rhan-amser (0/8 cyfwerth ag amser llawn) 30 awr/wythnos |
| Wedi'i lleoli yn: | Swyddfa Ystâd Elan, Pentref Elan |
| Yn adrodd i: | Rheolwr Prosiectau a Phartneriaethau |
| Cyflog: | £26,500 – £30,000 (pro rata) |
| Dyddiad cau: | 1af Mehefin 2025 |
| Dyddiad Cyfweliad: | Wythnos yn cychwyn 9fed Mehefin 2025 |

## Ynglŷn â Chwm Elan:

Mae Cwm Elan wedi'i leoli ym Mynyddoedd Cambria yng Nghanolbarth Cymru mewn tirwedd unigryw sy'n cyfuno tir mynyddig anghysbell, ffermydd ynysig, dyffrynnoedd coediog serth a champ peirianegol Fictoraidd anhygoel a aeth â dŵr glân i Firmingham.

## Y Rôl

Os ydych yn frwdfrydig am y posibiliadau i adfer mawn gael effaith fuddiol ar y dirwedd, natur a lleihau carbon, yna rydym yn chwilio am bobl sydd â brwdfrydedd, ymrwymiad a dealltwriaeth o'r dirwedd bwysig hon ar gyfer pobl a bywyd gwyllt.

Wedi'ch lleoli yng Nghwm Elan, byddwch yn rhan o dîm deinamig, gan sicrhau gwaddol parhaol am genedlaethau i ddod. Rydym yn chwilio am agwedd ddeinamig, 'gallu gwneud' ac angerdd dros ymgysylltu a grymuso amrywiaeth eang o fuddiolwyr, partneriaid a rhanddeiliaid yn ein tirwedd arbennig.

Yn gyfnewid am hyn, rydym yn cynnig amgylchedd gwaith cyfeillgar a hyblyg, cyfleoedd gwych ar gyfer datblygiad proffesiynol a'r cyfle i wneud gwahaniaeth cadarnhaol yn y dirwedd unigryw hon.

## Diben y Swydd

Diben y Swydd yw cynorthwyo'r Swyddog Adfer Mawndiroedd i gyflawni gwaith yr Ymddiriedolaeth mewn perthynas ag adfer mawndiroedd ar safleoedd ucheldirol anghysbell **(y gellir eu cyrraedd ar droed yn unig)**. Bydd y rôl yn cynnwys cyflawni'r gweithgareddau canlynol:

- Cynorthwyo i gynnal arolygon i nodi cyflwr y mawndir a nodweddion diraddio
- Cynorthwyo i gynllunio prosiectau adfer mawndiroedd
- Cynorthwyo gyda sicrhau a rheoli contractau i wneud gwaith adfer
- Cefnogi gyda gosod cyfarpar monitro
- Mapio holl ganlyniadau'r arolwg, awgrymiadau ymyrraeth, llwybrau mynediad a gwybodaeth arall am y safle ar GIS
- Gweithio gyda phartïon gwaith gwirfoddol wrth gynnal gwaith adfer neu arolygon ymarferol
- Unrhyw dasg arall sydd yn ofynnol ohonoch i gefnogi gwaith y tîm.

### Prif gyfrifoldebau ac atebolrwydd

- Arolygon desg o nodweddion diraddio mawndiroedd
- Arolygon tir ar safleoedd mawndir i gynnwys nodweddion, cyflwr, dyfnder mawn, llystyfiant
- Rheoli data arolygu a chynllunio prosiectau o fewn systemau GIS
- Cynorthwyo i gynllunio gwaith adfer, gan gynnwys llwybrau mynediad, pwyntiau lles, ymyriadau sy'n ofynnol, llinellau amser, costau, asesiadau risg
- Cynorthwyo i weithio'n agos gyda ffermwyr, rheolwyr tir a phartneriaid eraill i helpu i ddatblygu cynlluniau adfer mawndiroedd
- Cynorthwyo i gael yr holl gydsyniadau ac ymgynghoriadau angenrheidiol
- Cynorthwyo i baratoi manylebau gwaith a sicrhau contractwyr ar gyfer y gwaith adfer
- Cynorthwyo gyda threfnu prynu a danfon yr holl ddeunyddiau angenrheidiol ar gyfer gwaith adfer
- Cefnogi'r swyddog Adfer Mawndiroedd gyda rheoli contractwyr i gyflawni gwaith adfer, gan sicrhau bod ansawdd y gwaith sy'n cael ei ddarparu yn unol ag arfer gorau cyfredol a manylebau prosiect a grant.
- Hyrwyddo gwaith yr Ymddiriedolaethau trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, gwefan yr Ymddiriedolaeth, ysgrifennu erthyglau a chyflwyno cyflwyniadau mewnol ac allanol.
- Cynorthwyo i ddarparu gweithgorau rheoli ymarferol ar safleoedd mawndir gyda gwirfoddolwyr a phartneriaid

**Sylwch y bydd rhywfaint o'r gwaith hwn yn digwydd ar dir ucheldir anghysbell ac ar adegau mewn tywydd garw, bydd weithiau'n heriol yn gorfforol.** Mae gweithdrefnau iechyd a diogelwch cadarn ar waith ar gyfer gwaith o'r fath.

## Sgiliau, gwybodaeth a phrofiad hanfodol

- Y gallu i fodloni terfynau amser prosiect ac adrodd, cadw cofnodion ac ysgrifennu adroddiadau
- Peth gwybodaeth am ecosystemau mawndiroedd, gwyddoniaeth mawndiroedd, a thechnegau adfer mawndiroedd / cynefinoedd
- Profiad ymarferol o gynhyrchu cynlluniau, manylebau a chostau ar gyfer cynlluniau adfer mawndiroedd
- Sgiliau mapio GIS
- Gwybodaeth dda am arferion rheoli tir yr ucheldir a heriau cysylltiedig.
- Y gallu a'r hyder i weithio yn yr awyr agored am gyfnodau hir ym mhob tywydd, gan gerdded i safleoedd ucheldir anghysbell.

## Sgiliau, gwybodaeth a phrofiad dymunol

- Peth profiad rheoli contractau, yn ddelfrydol yn cynnwys contractwyr rheoli tir
- Dealltwriaeth o reoliadau Rheoli Dylunio Adeiladu (CDM) a gweithdrefnau cydsynio a chynllunio.
- Rhywfaint o brofiad o ymgysylltu â rhanddeiliaid a gweithio mewn partneriaeth
- Profiad gweithredu drôn
- Cymraeg

## Cefnogi'r Ymddiriedolaeth

- Codi proffil Ymddiriedolaeth Cwm Elan
- Datblygu a chymryd rhan mewn agweddau addysgol ar waith yr Ymddiriedolaethau gan gynnwys digwyddiadau, teithiau cerdded tywysedig a sgyrsiau â darluniau
- Unrhyw ddyletswyddau ychwanegol fel yr amlinellir yn y rhaglen waith Flynyddol
- Unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n codi'n rhesymol o bryd i'w gilydd
- Yr holl dasgau a chyfrifoldebau i'w cyflawni yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r Ymddiriedolaeth.

Ymddiriedolaeth Cwm Elan

Elan Valley Trust

Rydym yn agored i geisiadau o amrywiaeth o gefndiroedd a lefelau profiad. Os ydych yn ansicr ynghylch a ydych yn bodloni gofynion y swydd, cysylltwch i drafod. Byddem hefyd yn agored i geisiadau i rannu swydd, patrymau gweithio hyblyg e.e. gweithio yn ystod y tymor neu lai o oriau gwaith i'r rhai a hysbysebir.

## Proses Ymgeisio

Cyflwynwch CV cyfredol sy'n cynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Hanes cyflogaeth
- Cymwysterau
- Dau Eirda

A datganiad ategol ar ddim mwy na 2 ochr o A4 (11pt o leiaf) yn disgrifio sut rydych chi'n bodloni'r sgiliau, y wybodaeth a'r profiad a restrir uchod ynghyd â phriodoleddau personol rydych chi'n eu hystyried yn berthnasol

Rhaid cyflwyno cais erbyn 1 Mehefin 2025 i recruitment@elanvalley.org.uk At Sylw. Esther Wakeling, Rheolwr Prosiectau a Phartneriaethau.